Croesawu Ymwelydd o'r Ynys Fawr

Daeth dau ymwelydd atom i oedfa'r bore y Sul olaf ym mis Mai, sef Theresa Haine, sy'n adnabyddus i ni fel trefnydd mudiad *Money for Madagascar*, a dyn ifanc, Rahajary Tsialoninarivo, Cyfarwyddwr SAF/FJKM neu Adran Ddatblygu Eglwys Iesu Grist ym Madagascar.



Mae Tse yn Rhydychen am ddeufis i wella ei Saesneg oherwydd mae'r Saesneg bellach yn hanfodol er mwyn cyfathrebu â phartneriaid yn ei waith. Mae'n fab i weinidog a fu'n gweithio yn y brifddinas gydag Eleri Edwards, ac mae'n organydd yn un o'r eglwysi yno! Dywedodd y ddau wrthym iddynt fod ar bererindod i Neuaddlwyd y diwrnod cynt. Cafodd yr ymweliad effaith arbennig ar Tse ac yntau'n cofio mai oddi yno y cychwynnodd David Jones a Tomos Bevan ar eu taith ryfeddol i Fadagascar ym 1818.

Sefydlwyd SAF dri deg chwech o flynyddoedd yn ôl ac maent yn weithgar mewn pum maes: dŵr a charthffosiaeth, iechyd, yr amgylchedd, bwyd a chymorth mewn argyfwng a thrychineb. Maen nhw'n gweithio ymhob rhan o'r Ynys Fawr (y fwyaf yn y byd o ran maint ar ôl Awstralia), o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin, ac mae eu prosiectau yn helpu cannoedd o filoedd o bobl. Felly mae'r gwaith mae Tse yn gyfrifol amdano o dan adain yr Eglwys ym Madagascar yn hollol allweddol.

Eleni mae *Money for Madagascar* yn dathlu chwarter canrif ers cael ei sefydlu gan Barbara Prys-Williams ym 1986. Yn ôl a glywais, pan oedd Barbara'n gweithio yno bu'n dyst i ferch ifanc yn marw ar enedigaeth plentyn oherwydd nad oedd modd ei chludo i ysbyty. Penderfynodd fod yn rhaid gwneud rhywbeth. Aeth ati gyda help Crynwyr Abertawe i godi arian i brynu cerbydau a dyna ddechrau'r elusen. Erbyn hyn mae *Money for Madagascar* wedi codi dros ddwy filiwn o bunnoedd! Swm anferthol! Mae'n werth troi at eu gwefan sy'n hawdd ei dilyn, yn llawn gwybodaeth ac yn hollol ysbrydoledig. Cewch ddarllen am y gwaith arbennig iawn sy'n cael ei wneud ac fel mae pob ceiniog a gesglir yn cael ei defnyddio i helpu'r anghenus. Beth amser yn ôl buom ni ym Minny Street yn casglu arian ar gyfer gweinidogion sydd wedi ymddeol. Mae'n anodd inni sylweddoli mor ddifrifol yw sefyllfa'r rhai sydd heb blant i'w cynnal yn eu henoed. Nid oes ganddynt unrhyw incwm ar ôl treulio oes yn gwasanaethu eraill. Clywsom gan Theresa iddi ymweld ag un gŵr yn ddiweddar a darganfod ei fod yn llythrennol yn marw o newyn. Nid oedd am i'w gymdogion wybod mor ddifrifol oedd ei sefyllfa oherwydd prin iawn oedd eu hadnoddau hwythau.

Mae bob amser yn fraint fawr cael cwrdd â'r rhai sy'n dod atom o Fadagascar, ac roedd cael cwmni Tse am ychydig amser yn fendith. Y gobaith yw y cawn ddefnyddiau cyn bo hir i'w dosbarthu i ddangos sut gall unigolion wneud cyfraniad i hybu'r gwaith. Mae ychydig arian yn gallu newid bywydau pobl ym Madagascar.

Rhiannon Gregory